POLISI MARCIO - Ymateb i waith

Ymateb i waith disgybl yw un o'r prif fannau cyswllt rhwng athro a disgybl. Mae marcio gwaith yn rhan hanfodol o'n gweithdrefn asesu parhaol. Defnyddir y termau 'Ymateb i waith', 'Marcio' ac 'Adborth' i ganolbwyntio ar yr hyn sydd yn cael effaith gwirioneddol ar gynnydd mewn gwaith. Ein nod yw datblygu'r disgyblion i fod yn fwy cyfrifol am eu gwaith gan wybod bod cywirdeb yn rhywbeth i'w anelu ato dros gyfnod ac nid yw'n digwydd dros nos.

Gyda chytundeb y llywodraethwyr cytunwyd nad oes angen marcio pob darn o waith yn drylwyr. Yn hytrach, dylid penderfynu pa ddarnau fydd yn cael eu marcio'n fanwl. Gellir cynnig adborth ar lafar neu'n ysgrifenedig gan oedolyn, asesiad gan gymheiriaid neu hunanasesu.

Wrth ymateb i waith byddwn yn trafod a marcio gyda'r plentyn yn bresennol gymaint â phosibl. Byddwn yn -

- gwerthfawrogi cyfraniad ac ymdrech gan ddangos parch at y gwaith
- gosod nod a meini prawf ar ddechrau darn o waith
- canolbwyntio ar agweddau sydd angen eu datblygu
- amlygu llwyddiant
- cynorthwyo'r plant i ganolbwyntio ar gywirdeb
- gwella hyder y plant;

Wrth nodi gwelliannau byddwn yn -

- cynnig sylwadau a gofyn cwestiynau a fydd yn ysgogi'r plentyn i ymateb i'r gwaith
- gosod targedau ar gyfer datblygu yn y dyfodol;

Er mwyn penderfynu beth sydd angen ei gywiro neu ei wella, rhaid ystyried:-

- gallu'r disgybl
- y mathau o wallau sy'n codi o'r gwaith
- natur a gofynion y dasg sy'n cael ei marcio
- disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru a'r Fframweithiau Sgiliau Trawsgwricwlaidd (Llythrennedd, Rhifedd, Cymhwysedd Digidol)

Wrth farcio ac asesu mae angen:

- sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu a'u hannog i wirio eu gwaith eu hunain trwy ddeall y meini prawf llwyddiant sydd wedi'u cyflwyno mewn ffordd sy'n addas i oedran y disgyblion
- annog pob disgybl i edrych dros y gwaith yn ofalus cyn ei gyflwyno i'r athro dosbarth. Bydd sylwadau priodol gan yr athro wrth ochr neu ar ddiwedd darn o waith.
- tynnu sylw at gywiro sillafu, e.e. smotiau o dan eiriau, a 'Have a Go Books', a gwella mynegiant, arddull a chynnwys.
- annog plant i hunan asesu ac i asesu gwaith eraill yn gyson er mwyn datblygu'r sgil o adfyfyrio eu gwaith a gwaith eraill gan edrych am welliannau yn erbyn targedau.

Nid oes angen ail ddrafftio darnau cyfan o waith a gall canolbwyntio ar rannau arbennig o'r gwaith fod yn fwy effeithiol. Byddwn yn rhoi amser penodol i'r plant ymateb i'r adborth yma, e.e. defnyddio papur gwyrdd i ddangos ail-ddrafftio.

Côd Marcio Ysgol Gyfan

Côd

Pinc – Pinc Perffaith (uwcholeuo pethau da, e.e. ymadroddion, geiriau, berfau ayyb)

Gwyrdd – Gwyrdd Gwella (adnabod lle gallent wella trwy ychwanegu berf/cymhariaeth ayyb. Disgybl yn mynd ati i wneud newidiadau neu ychwanegiadau yn syth.)

Marcio Mathemateg
Os bydd y gwaith wedi ei farcio yn wyrdd dylai'r plant sylweddoli ei fod yn nodi gwall. **NI** ddylai'r gwaith anghywir gael ei ddileu. Dylai gael ei gywiro gan y plentyn mewn lle newydd yn ei lyfr.

Rhennir y cyfrifoldeb o weithredu'r polisi hwn gan y staff cyfan a'r disgyblion.
Dyddiad: 05.02.18
Adolygwyd: 26/10/23